| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Ardal Dwyfor |
| **DYDDIAD** | 26 Mawrth 2012 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Adroddiad Blynyddol Adran Darparu a Hamdden |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Rhoi amlinelliad o waith yr Adran am y flwyddyn aeth heibio i'r Pwyllgorau Ardal |
| **AWDUR** | Morwena Edwards<br>Pennaeth Darparu a Hamdden |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad fel crynodeb o berfformiad/waith yr Adran am y flwyddyn aeth heibio. |
| **ARWEINYDDION PORTFFOLIO** | Cynghorydd Eric M Jones<br>Cynghorydd W Roy Owen |

**1. <u>Cyflwyniad</u>**

1.1 Mae Adroddiad Blynyddol yr Adran Darparu a Hamdden wedi cael ei gyflwyno eleni ar sail gweithgaredd yr Adran ar gyfer 2011/12 ynghyd ag amlinelliad o'r prif amcanion ar gyfer 2012/13.

1.2 Fel mae'r aelodau eisoes yn ymwybodol, prif rôl yr Adran yw darparu gwasanaethau rheng flaen. Cyflogir dros 2,750 o staff o fewn yr Adran ac mae cyllideb dros £36 miliwn yn ogystal.

1.3 Mae ffocws o fewn yr Adran a'r bod yn gost effeithiol a rhoi gwasanaethau o'r safon uchaf bosib o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

1.4 Ar gyfer 2011/12 roedd yr Adran Darparu a Hamdden wedi ei rannu yn 5 uned gwasanaeth, sef: -

- Gwasanaethau Preswyl a Dydd
- Gwasanaethau Gofal Cymunedol
- Gwasanaethau Hamdden
- Gwasanaethau Glanhau a Gofalwyr Adeiladau
- Gwasanaethau Arlwyo

gyda chefnogaeth gan wasanaethau Cefnogi Busnes a Gweinyddol yr Adran.

1.5 Mae'r adroddiad hwn wedi ei rannu i'r unedau gwasanaethau uchod, gyda phob rhan yn ystyried gweithgaredd yr Adran ar gyfer y flwyddyn.

1.6 Hoffai'r Pennaeth ynghyd a'r Arweinyddion Portffolio gymryd y cyfle hwn i ddiolch yn ffurfiol i holl staff yr Adran am eu gwaith caled dros y flwyddyn. Mae ymroddiad yr holl staff yn ganmoladwy iawn ac yn dangos gwaith yr Adran a'r Cyngor ar ei orau.

## 2.0 <u>Ystyriaethau Strategol</u>

2.1 Fe fydd yr aelodau yn ymwybodol mae un o brif ganlyniadau'r Cynllun 3 Blynedd yw - ***'Pobl Gwynedd yn Byw Bywydau Iachach'.*** Gan fod gan yr Adran gyfraniad sylweddol i wneud o ran gweithio tuag at y canlyniad yma, mae gwaith wedi digwydd yn ystod y flwyddyn o geisio sicrhau bod yr Adran yn uchafu'r budd hwn. Bwriad yr Adran yw ail ddiffinio gweledigaeth a phwrpas yr Adran, gan roi yn ganolog galluogi a chefnogi pobl Gwynedd i Fyw'n Iach.

2.2 Mae'r Adran erbyn hyn wedi cychwyn ar lwybr ail-strwythuro rheolaethol gyda'r bwriad o wneud cyfraniad allweddol tuag at y wireddu hyn. Bydd yr ail-strwythuro hyn yn sicrhau bod capasiti strategol ar gyfer yr agenda iechyd hwn mewn lle a bod strwythur rheolaethol llawer mwy cost effeithiol mewn lle o ran rheoli materion gweithredol. Bydd ffocws ardal hefyd yn glir o ran y strwythur gweithredol hwn.

2.3 Bydd yr Adran i'r dyfodol yn gyfrifol am arwain mewn meysydd penodol o fewn y Prosiect Strategol Gwella Iechyd sef:

- Gwynedd Iach
- Gweithgareddau Egniol
- Bwyta'n Iach
- Alcohol, Tybaco a Chyffuriau

2.4 Mae'r Adran ar hyn o bryd, yn datblygu cyfres o fuddiannau fydd i'w cynnwys yn y Cynllun 3 Blynedd bresennol ynghyd â rhaglen waith cynhwysfawr fydd yn cyfrannu tuag at wireddu'r weledigaeth newydd.

2.5 Yn gryno, mae'r ail-strwythuro yn cynnig strwythur sy'n rhoi ffocws ar *'Gwneud y pethau iawn'* a *'Gwneud pethau yn iawn'*. O ganlyniad, rhannir y strwythur i ddwy Uned sef yr Uned Weithredol (sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau, rheoli adnoddau a sicrhau ansawdd) a'r Uned Ddatblygol (sy'n gyfrifol am adnabod y gweithgareddau a'r ymyraethau fwyaf effeithiol i'r Uned Weithredol ei ddarparu ynghyd â chomisiynu partneriaid i gyfrannu at y weledigaeth). Mae ffocws ardal o fewn yr Uned Weithredol o fewn yr Adran, gyda Rheolwr Ardal yn gyfrifol am holl ystod gwasanaethau o fewn ardal. Bwriad hyn yw sicrhau ffocws lleol a bod y darpariaethau yn ymateb yn addas i ofynion ardaloedd.

2.6 Fel sydd wedi amlinellu uchod, mae'r newid hwn wedi sicrhau capasiti datblygol ychwanegol o fewn yr adnoddau oedd gan yr Adran, tra hefyd yn cynnig arbediad effeithlonrwydd.

2.7 Yn atebol i'r Pennaeth yn y strwythur newydd mae dau Uwch Reolwr – Gwenno Williams (Uwch Reolwr Gweithredol) ac Ian Jones (Uwch Reolwr Datblygol). Ar yr amser o ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd enw'r rheolwyr ar gyfer gweddill y strwythur newydd ar gael, ond bydd y strwythur newydd yn cael ei gyfathrebu i aelodau yn ystod mis Mawrth 2012, pan fydd y broses penodi wedi gorffen.

**3.0 Adolygiad o Berfformiad yr Adran 2011/12**

3.1 Oherwydd goblygiadau'r ail-strwythuro uchod, mae'n debyg mai dyma'r tro olaf i'r Adran adrodd ar berfformiad gwasanaethau unigol i'r Pwyllgor Ardal. I'r dyfodol, byddem yn adrodd ar ein perfformiad yng nghyd destun beth yw'r Canlyniad a'r Effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth yn unol â'r newid yn nhrefniadau Rheoli Perfformiad y Cyngor.

3.2 Er gwybodaeth i chwi, rhagwelir y byddem yn adrodd ar sail y meysydd canlynol ar gyfer 2012/13:

***Byw'n Iach drwy…***

- Ddarparu Prydau Iach
- Weithgareddau Egniol
- Gynnal Amgylchedd Glân
- Gynnal a Galluogi Pobl
- Sicrhau Gwerth Am Arian

3.3 Fodd bynnag, ac ar gyfer 2011/12 mae'r perfformiad fel a ganlyn mewn perthynas â'r gwasanaethau unigol traddodiadol:

**4.0 Gwasanaethau Preswyl a Dydd**

4.1 Fel mae'r aelodau yn ymwybodol eisoes, mae'r gwasanaeth hwn yn ymwneud a darparu gwasanaethau preswyl a dydd i bobl hyn a phobl ag anableddau dysgu. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu comisiynu gan Wasanaethau Cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae dau Adolygiad Strategol ar y gweill; un a'r gwasanaethau preswyl i bobl hyn a'r llall a'r gwasanaethau anabledd dysgu. Yn ogystal mae prosiect yn mynd rhagddo gan Wasanaethau Cymdeithasol ar siâp gwasanaethau dydd.

4.2 Mae'n deg nodi felly fod gwasanaethau preswyl a dydd yn wynebu cyfnod heriol dros ben o ran newid a rhagwelir y bydd y sefyllfa yma'n parhau am y blynyddoedd nesaf.

4.3 Y sefyllfa gyfredol yw y bydd Cartref Bron Y Graig, Y Bala yn cau ym mis Medi, 2012 yn dilyn agoriad adeilad Tai a Gofal Ychwanegol Awel Y Coleg. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau fod y newid hwn yn digwydd mor esmwyth ag sy'n bosib. Mae penderfyniad diweddar hefyd i ymestyn ac ymgymryd â gwaith ymgynghori pellach ar ddyfodol Hafod Y Gest, Porthmadog yn golygu na wyddom beth yw'r dyfodol ar gyfer y cartref hwn am rhai misoedd eto.

4.4 Nid yw sefyllfa mewn perthynas â gweddill cartrefi'r Adran yn glir eto gan fod gwaith yr Adolygiad Strategol o Wasanaethau Preswyl a Nyrsio yn parhau. Fodd bynnag, mae'r Adran yn parhau i gydweithio gyda'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol gan ddarparu gwybodaeth fel bo'r angen, ond mae Strategaeth Pobl Hyn Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlinellu bod angen lleihau nifer gwlâu preswyl ac y bydd angen llai o gartrefi preswyl traddodiadol o fewn Gwynedd.

4.5 Yn y maes Anabledd Dysgu, gwyddom hefyd y bydd Cartref Pant yr Eithin, Harlech yn cau ar 31 Mawrth, 2012. Bydd y staff yn parhau yn gyflogedig i'r Adran hyd at 14 Ebrill, 2012 er mwyn gwacau'r adeilad. O'r staff hynny, mae 1 wedi ymddeol, 1 wedi gadael a'r gweddill (15 o staff) yn colli eu swyddi. Hoffai'r Adran gymryd y cyfle i ddiolch i'r holl staff sy'n cael eu heffeithio am eu hymroddiad i'r gwaith dros y blynyddoedd ac am eu hurddas a'u proffesiynoldeb wrth ymdopi gyda sefyllfa anodd iawn.

4.6 Mae'r 6 mis diwethaf wedi bod yn gyfnod o gryn ansicrwydd ymhlith trigolion a staff y cartrefi preswyl. Dylid nodi yma fod pawb sydd wedi bod yn ymwneud â'r broses ymgynghori ar ddyfodol cartrefi wedi'u taro'n arbennig gan bryder y staff, nid am eu sefyllfa hwy eu hunain, ond am eu pryder am sefyllfa preswylwyr y cartrefi. Mae hyn yn tystiolaethu'r berthynas agos, gymunedol sydd yn y cartrefi rhwng preswylwyr a staff ac mae'n arwydd o ymrwymiad y staff i ofal a pharch.

4.7 Mewn perthynas â Gofal Dydd Pobl Hŷn mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynnig arbedion o £300k. Mae'n anochel y bydd hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth fewnol gan mai'r bwriad yw negodi gyda'r sector annibynnol i ddarparu gofal dydd "cymdeithasol" gyda'r Adran Darparu a Hamdden yn arbenigo mewn gofal dydd lle mae angen gofal personol neu arbenigol ar y defnyddiwr gwasanaeth.

4.8 O ystyried y wybodaeth yn y cyflwyniad i'r adroddiad yma, mae trosiant staff o fewn y gwasanaethau preswyl a dydd yn isel - 3% neu lai yn erbyn targed adrannol o 5%. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad staff rheng flaen i Gyngor Gwynedd, i'w gwaith ac i'r bobl y maent yn gweithio â hwy. Gydag ansicrwydd cynyddol ym maes darpariaeth breswyl a dydd mewnol bydd cadw'r lefel trosiant mor isel yn y dyfodol yn her.

4.9 O ran lefel preswyliaeth mewn cartrefi preswyl gosodwyd targed o 85 % am y flwyddyn. Mae'r lefel preswyliaeth ar ddiwedd Chwarter 3 yn 79% sydd wedi arwain i'r Adran godi'r mater gyda'r Cyfarwyddwr Strategol a'r Pennaeth Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae peth eglurhad o'r gwahaniaeth i'w gael o'r ffaith nad yw dau gartref yn cael derbyn preswylwyr newydd bellach gan eu bod dan fygythiad cau. Mae'n bwysig nodi, bod rhai o'r cartrefi yn dangos % preswyliaeth sydd uwchben y targed.

4.10 Argymhellwyd ar ddechrau'r flwyddyn y dylid sefydlu Pwyllgor Preswylwyr a Chyfeillion ymhob cartref. Mae cynnydd da wedi ei wneud gyda'r gwelliant hwn gyda phreswylwyr a theuluoedd yn datgan eu bod yn cael budd o'r pwyllgorau, lle maent wedi eu sefydlu hyd yn hyn. Mae pob cartref yn ceisio sicrhau bod Pwyllgor yn weithredol erbyn yr Haf 2012. Mae'n ddiddorol nodi bod y Comisiwn ar Wella Urddas mewn Gofal wedi cyhoeddi ddechrau mis Mawrth eleni, bod angen i ddarparwyr gofal rhoi'r defnyddwyr a'u teuluoedd yn ganolog i weithredu cartrefi preswyl.

4.11 Cyflwynwyd egwyddorion annibyniaeth a galluogi i bob cartref preswyl. Mae sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi cymryd lle ym mhob cartref gydag un cartref yn arbennig (Plas Gwilym yn ardal Arfon) wedi datblygu Uned Galluogi fel y gall defnyddwyr gwasanaeth dderbyn cyfnod o alluogi cyn derbyn asesiad cynhwysfawr o'u hanghenion yn dilyn cyfnod mewn ysbyty neu ryw gyfnod o salwch.

4.12 Datblygwyd yn bellach model cymdeithasol o gefnogi defnyddwyr gwasanaeth o fewn y gymuned - mae gwaith yn parhau gyda'r datblygiad yma ond oherwydd nad yw

bwriadau comisiynu'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn y maes gofal dydd yn aeddfed eto mae'r cynnydd yn gyfyngedig i greu cynlluniau a thrafodaethau gyda phartneriaid allweddol (megis AgeCymru).

4.13 Bu i ni gynnal adolygiad a chynllun gweithredu ar waith nos cartrefi preswyl yn ystod y flwyddyn gan sicrhau bod yr un safonau a diwylliant yn bodoli ac sydd yn ystod y dydd. Mae gwaith ymchwil wedi ei gwblhau ac argymhellion wedi eu datblygu. Y nod yw gweithredu ar yr argymhellion yn ystod 2012/13.

## 5.0 **<u>Gwasanaethau Gofal Cymunedol</u>**

5.1 Gwasanaeth sydd yn darparu gofal cartref a gofal yn y gymuned yw Gwasanaethau Gofal Cymunedol a chyflogir oddeutu 350 o staff ar draws Wynedd.

5.2 Mae'r gwasanaeth wedi rhoi ymdrech arbennig yn ystod y flwyddyn er mwyn sefydlogi'r gwasanaeth yn dilyn cyfnod o newid sylweddol. Serch hynny, mae rhai newidiadau pellach wedi eu gweithredu yn ystod y flwyddyn sef:

- Newid cofrestriad sirol y gwasanaeth i gofrestriad fesul Ardal. Erbyn hyn, ceir Rheolwyr Cofrestredig ym mhob ardal o Wynedd sy'n sicrhau atebolrwydd ardal i'r Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC neu'r CSSIW yn Saesneg).
- Llwyddwyd i gofrestru ar Rhestr Darparwyr Gogledd Cymru (trefn caffael newydd ar gyfer pob darparwr gofal cymunedol yn y rhanbarth).
- Llwyddwyd hefyd i ennill gwobr genedlaethol Cyngor Gofal Cymru am waith yr Adran gyda hyrwyddo'r Gymraeg drwy ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth.

5.3 Bwriad comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol yw lleihau'r ddarpariaeth fewnol gan yr Adran Darparu a Hamdden a chomisiynu mwy o oriau gofal cymunedol gan y sector breifat. Mae hyn yn golygu bod staff o fewn yr Adran yn colli oriau gwaith ac na ellir yn hawdd cytuno cytundebau oriau gyda hwy. Er hyn addawyd sefydlogrwydd am y flwyddyn nesaf yn y lefel oriau a gomisiynir. Ceir hefyd cynnydd positif gyda chyflwyno Galluogi ac mae'r Adran yn ymfalchïo yn llwyddiant staff i ddarparu'r cynllun eleni.

5.4 Dau gynllun gwella newydd oedd gan y gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn gan fod angen sefydlogi newidiadau yn sgil y system TG newydd a'r ail strwythuro oedd yn hanfodol yn ei sgil. Mae'r cynnydd ar y rhain fel a ganlyn:

- Cyflwyno model Cynllunio Person Canolog - datblygiad yma bellach wedi ei gwblhau gyda'r gwasanaeth yn defnyddio'r cynlluniau ar draws yr ardaloedd (ac roedd hyn yn cynnwys dilyn y drefn hyn o fewn Cartrefi Preswyl yn ogystal).
- Llunio a chytuno ar fodel a fframwaith ar gyfer y gwasanaeth gofal cartref a gynigir yn y Tai Gofal Ychwanegol yn y Bala - cynnydd da wedi ei wneud gyda'r gwelliant hwn sy'n golygu bydd yr Adran yn symud ymlaen i benodi Rheolwr a staff Gofal yn fuan yn 2012/13.

## 6.0 Gwasanaeth Hamdden

6.1 Er bod gwaith yr Unedau yn gorgyffwrdd gellir torri prif waith y Gwasanaeth i'r elfennau canlynol:-

- Canolfannau Hamdden, meysydd a pharciau
- Datblygu Chwaraeon
- Cynllun Cyfeirio i Ymarfer
- Cynllun Chwarae

6.2 Y prif flaenoriaethau ar gyfer y Gwasanaeth yn ystod 2011/12 oedd

- Cyflawni targedau cynlluniau arbedion effeithlonrwydd gan uchafu'r buddsoddiad a wnaed i ddatblygu ystafelloedd ffitrwydd er mwyn gwireddu hynny.
- Cyfrannu at waith yr Adolygiad Strategol Hamdden a Gweithgareddau Egniol. Bydd hynny'n parhau yn ystod 2012/13 gyda sawl mater yn trosglwyddo i'r Adran i'w gweithredu.
- Datblygu dogfen ar gyfer Creu Gwynedd a Môn Egniol 'Ychydig bach mwy pob dydd'. Dogfen yw hon sy'n rhoi gweledigaeth ar gyfer cyrraedd targedau lleol mewn perthynas â chymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol fel rhan o strategaeth ehangach y Llywodraeth o dan y pennawd 'Creu Cymru Egniol'. Bydd gwaith o ddatblygu rhaglen waith er mwyn gwireddu'r weledigaeth yn digwydd yn 2012/13.
- Codi ymwybyddiaeth a gwella ymarfer da staff o fewn y maes hamdden mewn perthynas â hybu defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae pob Canolfan bellach wedi adnabod Pencampwr Iaith ac mae cynllun gweithredu ar gyfer pob Canolfan. Derbyniwyd cefnogaeth gan y Bwrdd Iaith ar gyfer y Cynllun hwn.

6.3 Fel rhan o'r cynlluniau arbedion effeithlonrwydd corfforaethol roedd gan y Gwasanaeth darged heriol iawn ar gyfer 2011/12. Daw hyn ar ben y gofyn yn ystod y flwyddyn flaenorol i gyflawni swm cyffelyb sy'n golygu dros y ddwy flynedd diwethaf fod y gwasanaeth wedi llwyddo i gyflawni £550,000 o arbedion ar draws yr unedau. Mae cynlluniau mewn lle ar gyfer cyflawni targedau 2012/13 ond bydd angen monitro'n ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwireddu o ystyried yr hyn a gyflawnwyd eisoes.

6.4 Mae enghreifftiau o ymarfer da a chynnydd cyffredinol i'w gweld drwy'r Sir a chafodd Canolfan Hamdden Plas Ffrancon, Bethesda cydnabyddiaeth cenedlaethol ym mis Rhagfyr, 2011 drwy ennill y wobr gyntaf am weithrediad canolfannau hamdden gan y sefydliad meincnodi APSE *(Association of Public Service Excellence)*.

6.5 Fodd bynnag, cydnabyddir fod lle i wella'r ddarpariaeth yn gyffredinol yn arbennig yn ardal Meirionnydd. O ganlyniad i'r ail-strwythuro a nodwyd eisoes bydd yr Adran yn rhoi ffocws arbennig ar yr ardal hon er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cwrdd â gofynion y defnyddwyr. Mae tan berfformiad rhai canolfannau yn yr ardal hon yn bryder a byddai'r Adran yn gwerthfawrogi mewnbwn aelodau a'r gymuned er mwyn gwella'r ddarpariaeth a datblygu cynlluniau cynaliadwy.

6.6 Mae'r cynllun Cyfeirio i Ymarfer (NERS), sydd yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig sesiynau ymarfer ar gyfer rhai sydd wedi dioddef salwch difrifol gyda'r nod o wella eu lefelau iechyd a ffitrwydd. Mae cydweithio agos gyda'r canolfannau hamdden a gyda'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus a'r Ymddiriedolaeth Betsi Cadwaladr. Mae chwe staff a Chydlynydd yn cael eu cyflogi trwy'r cynllun sydd wedi eu lleoli yng Nghanolfannau Hamdden, Glaslyn, Bro Dysynni, Dwyfor a Phenllyn ac yn y Ganolfan Tenis yng Nghaernarfon.

6.7 Oherwydd ariennir Cynllun NERS drwy grant gan Lywodraeth Cymru mae'n destun adolygiadau yn rheolaidd ac mae gwastad posibilrwydd na fydd arian ar gael yn y tymor hir er mwyn cynnal y cynllun. Fodd bynnag, mae llwyddiant y cynllun yn awgrymu y dylai'r Cyngor ystyried parhau gyda'r ddarpariaeth wedi i'r grant ddod i ben ond mae hynny'n benderfyniad strategol i'r dyfodol.

6.8 Bwriedir datblygu Cynllun NERS yn 2012/13 i ddarparu dosbarthiadau arbennig i glientau gyda chyflwr meddygol cronig yn cynnwys Atal Codymau, Adferiad Ysgyfeiniol a Phoen Cefn. Yn ogystal, bwriedir cynnal cynllun peilot yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn sy'n cynnig i ddefnyddwyr allu garddio ar dir y ganolfan. Pe bae'n llwyddiant, mae modd ystyried ei ehangu i ganolfannau mewn ardaloedd eraill.

6.9 Ers penodiad y Swyddog Chwarae yn 2009, mae nifer y cynlluniau chwarae wedi cynyddu 28% a nifer y plant sydd yn cymryd rhan wedi codi 20%. Yn ôl yr holiaduron a dderbyniwyd roedd 97% o'r plant wedi mwynhau bob dim a gynigwyd yn y cynllun.

## 7.0 <u>Gwasanaethau Glanhau a Gofalwyr Adeiladau</u>

7.1 Mae Gwasanaeth Glanhau a Gofalwyr Adeiladau yn darparu gwasanaethau i ysgolion cynradd, uwchradd, swyddfeydd y Cyngor, toiledau cyhoeddus yn ogystal â nifer o gytundebau allanol. Mae'r pris yn cael ei osod i gyd-fynd gyda'r amlder gwaith a safon o fewn y cytundebau. Mae'r safon a ddarperir yn cael ei fonitro yn erbyn y disgwyliad yma.

7.2 Mae'r her ariannol sydd yn wynebu nifer o gwsmeriaid y gwasanaeth hwn yn golygu bod pwysau cynyddol arnom i ddarparu'r gwasanaeth mewn dulliau mwy effeithiol. Mae cydweithio da rhwng y gwasanaeth a chomisiynwyr / cwsmeriaid y gwasanaeth er mwyn ceisio cwrdd â'r wasgfa ariannol.

7.3 Mae'r her ariannol hefyd sydd ar ysgolion yn golygu bod rhai ohonynt (Meirionnydd yn bennaf) yn dewis peidio ymrwymo i'r cytundeb glanhau gyda'r Adran, ond yn hytrach rheoli'r gwaith glanhau eu hunain. Mae'r Adran yn ymwybodol o'r wasgfa ariannol sydd ar nifer o ysgolion uwchradd, oherwydd gostyngiad yn nifer plant, ac wedi cytuno gyda nifer o'r Penaethiaid i adolygu'r manyldeb gwaith er mwyn gwneud gwell defnydd o'r adnoddau.

7.4 Mae'r Gwasanaeth Glanhau wedi bod yn flaenllaw yn sicrhau cydymffurfiad y Cyngor gydag argymhellion yr Arglwydd Pennington yn dilyn ymchwiliad E Coli. Un o argymhellion yr Arglwydd Pennington oedd sicrhau bod gan blant adnodd addas ar gyfer golchi eu dwylo yn y toiledau. Er mae cyfrifoldeb yr Adran Addysg yw sicrhau hyn, mae'r

gwasanaeth glanhau wedi cytuno y byddent yn cymryd cyfrifoldeb am y gyllideb sebon a phapur toiled oddi ar ysgolion cynradd fel bod modd gwarchod y gyllideb yma rhag cael ei ddefnyddio i bwrpas arall. Mae'r cyfrifoldeb am y mater hyn o fewn ysgolion uwchradd yn parhau gyda'r Ysgol. Rydym yn y broses o fewnosod didolwyr sebon yn y toiledau ac mae'r rhain wedi eu dylunio yn arbennig ar gyfer plant. Ar y didolwr gwelwn yr ysgrifen:-

***"Golchwch eich dwylo, os gwelwch yn dda. Efo'n Gilydd Byw'n Iach"***

Er mwyn sicrhau cysondeb i brofiad plentyn, bydd y rhain hefyd yn cael eu mewnosod yn y canolfannau hamdden.

**8.0 Gwasanaethau Arlwyo**

8.1 Yn debyg iawn i wasanaethau eraill yr Adran, mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn wynebu her sylweddol o ran yr hinsawdd ariannol. Mae nifer o gwsmeriaid y gwasanaeth yn edrych am arbedion ariannol a/neu pris is am yr un ddarpariaeth. Golyga hyn bod angen herio ymarfer yn gyson a lleihau oriau gwaith yn gyson er mwyn sicrhau nad oes gwastraff o fewn y ddarpariaeth.

8.2 Mae'r Gwasanaeth Arlwyo hefyd yn gyfrifol am drefnu cyflenwad bwyd y Cyngor drwy arwain ar y tendr bwyd. Yn ddiweddar mae'r Gwasanaeth wedi cytuno cyflenwad bwyd newydd ac mae'r cyflenwyr llwyddiannus yn y broses o gael eu hysbysu.

8.3 Mae'r Gwasanaeth Arlwyo Cynradd yn paratoi dros 5,600 o brydau'r dydd, sydd yn gynnydd o'r adeg hyn llynedd o 400 o brydau'r dydd. Mae hyn rhannol oherwydd y nosweithiau blasu bwyd ynghyd a'r ymgyrch genedlaethol "Blas am Oes".

8.4 Fel canlyniad i'r uchod, derbyniodd y Gwasanaeth wobr gan APSE (Association of Public Service Excellence) yn y categorïau "Most Improved Performer" a "Best Performer".

8.5 Mae gwaith wedi cychwyn eleni ar fwydlen cynradd newydd ar gyfer Medi 2012 a hefyd mae trafodaethau wedi cychwyn gydag asiantaethau allweddol ynglŷn â datblygu Siarter Fwyd i Wynedd. Bydd hyn yn gweithio tuag at y weledigaeth o hyrwyddo bwyd ffres lleol.

**9.0 Argymhelliad**

9.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad fel crynodeb o berfformiad/waith yr Adran am y flwyddyn a aeth heibio.